Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD**

**Amseriad: Brys – cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2017/18**

**Teitl: Strategaeth Gyfalaf 2017/18 – 2023/24**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

## Crynodeb Gweithredol:

Mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth Gyfalaf y CHTh ar gyfer 2017/18 yn dilyn craffu yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 29 Mawrth 2017.

## Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 30 Mawrth 2017**

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Heddlu•Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

**DIBEN:** Ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio

**Amseru:** I'w weithredu erbyn 1af Ebrill 2017

**Teitl:** Strategaeth Gyfalaf 2017/18 – 2023/24

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Gofyniad Statudol - Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn gosod allan yr egwyddorion sydd wrth wraidd creu blaenraglen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dengys sut mae buddsoddi cyfalaf yn cyfrannu at gyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throseddu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

**Argymhelliad:**

Y Cyd-bwyllgor Archwilio i ystyried y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2017/18 – 2023/24.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned - Safeguarding our Community

## Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid (CHTh) i'r Cyd-bwyllgor Archwilio

## Strategaeth Gyfalaf

### 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sydd wrth wraidd blaenraglen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (Comisiynydd). Dengys sut mae buddsoddi cyfalaf yn cyfrannu at gyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throseddu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

1.2 Amlinellir y blaenoriaethau ar gyfer plismona yn yr ardal leol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Crynhoir y ddogfen hon gan y CHTh mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau yn ystyried barn y bobl leol a phartneriaid yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd, sef y cynrychiolydd etholedig. Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi ei Gynllun Heddlu a Throseddu ar 31ain Mawrth 2017. Ei flaenoriaethau yw:

- Blaenoriaeth Un: Cadw ein cymunedau'n ddiogel;
- Blaenoriaeth Dau: Diogelu'r rhai sydd yn agored i niwed;
- Blaenoriaeth Tri: Diogelu rhag niwed difrifol;
- Blaenoriaeth Pedwar: Cysylltu â Chymunedau.

1.3 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn ystyried Gofynion Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd wrth gyflwyno'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac mae e wedi datblygu Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei gyflwyniad gweithredol, fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Bydd pum egwyddor cyflwyno sylfaenol yn cynnal y Cynllun Heddlu a Throseddu:

| Blaenoriaethau | Egwyddorion Cyflwyno |
|---|---|
| Cadw ein cymunedau'n ddiogel | Rhoi gwerth am arian |
| Diogelu'r rhai sydd yn agored i niwed | Gweithio'n agos gyda'r cyhoedd |
| Diogelu ein cymunedau | Cydweithio |
| Cysylltu â Chymunedau. | Cefnogi dioddefwyr |
| | Cydraddoldeb a Thegwch |

1.4 Arf yw'r Strategaeth Gyfalaf i gefnogi cynllunio a gweithio corfforaethol ar draws y ddwy Gorfforaeth Undyn. Mae hefyd yn ein cynorthwyo i ddefnyddio a rheoli ein hasedau'n dda. Dengys y Strategaeth Gyfalaf sut yr ydym yn blaenoriaethu, monitro, cyflwyno a gwerthuso ein rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol methodoleg y prosiect (Prince 2).

1.4 Yn ddaearyddol, Dyfed Powys yw'r ardal Heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr, gan orchuddio dros hanner tir Cymru. Effeithir yn fwy na'r cyffredin gan yr heriau sydd yn gysylltiedig â phlismona ardal sydd yn bennaf yn ardal wledig ac sydd hefyd yn cynnwys dau borthladd arwyddocaol, y prif weithfeydd yn Aberdaugleddau a diwydiant twristiaeth fywiog. Mae Asedau Cyfalaf, bydded yn orsafoedd yr Heddlu, Tai Heddlu, Mastiau radio, Cerbydau neu TG ac offer Arall yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflwyno gwasanaethau plismona ar draws yr ardal ac mewn cyflwyno blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## 2 Partneriaethau Allweddol

2.1 Wrth gyflwyno pob elfen o'r strategaeth, mae'r Comisiynydd yn bwriadu talu sylw teilwng i'r agenda o gydweithio parhaus. Bydd yn cymryd pob cyfle posib i weithio'n agos gyda heddluoedd cyfagos ac Awdurdodau cyfansoddol eraill wrth ddatblygu strategaethau i wrthwynebu problemau cyffredin. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried yr angen parhaus i fuddsoddi yn y meysydd hyn sydd o flaenoriaeth allweddol wrth weithio gyda phartneriaid yn y dyfodol.

## 3 Rhaglen Gyfalaf

3.1 Mae asedau'n hanfodol i gyflwyno gwasanaethau'n effeithiol ac mae hi'n bwysig iddynt gael eu rheoli a'u cynnal yn effeithiol. Mae strategaethau ar gyfer Rheoli Ystadau, TG ac amnewid cerbydau yn sail i'r Strategaeth Gyfalaf wrth ddarparu'r manylion ar gyfer hirhoedledd a'r cylchoedd amnewid optimwm ar gyfer yr eitemau hyn. Mae'r Rhaglen Gyfalaf cyfredol, a geir yn Atodiad A yn y ddogfen hon yn seiliedig ar ystod o wybodaeth am anghenion.

3.2 Mae'r Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau'n gost effeithiol. Mae hyn yn golygu adolygu'r gwariant presennol a'r broses benderfynu yn ogystal ag edrych ar gyfleoedd ychwanegol i wella gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd a sicrhau gwerth am arian at y dyfodol.

3.3 Mae'r gyllideb Gyfalaf a amlinellir yn Atodiad A yn cyfrannu at y ffordd y gellir arbed arian wrth gyflwyno plismona yn ardal Dyfed Powys yn y dyfodol yn y ffyrdd canlynol:

- Lleihau gwariant refeniw drwy gael rhaglen o ailwampio adeiladau posibl a rhesymoli fel yr amlinellir yn y strategaeth ystadau;
- Sicrhau bod gwaith cynnal adeiladau a drefnwyd eisoes yn cael ei flaenoriaethu ar sail risg a chydymffurfiaeth statudol;

- Canoli dalfeydd yn Sir Gâr;
- Cyflwyno yn erbyn y Strategaeth Plismona Digidol a Roadmap sy'n gofyn am fuddsoddi mewn data symudol, plismona digidol a buddsoddi parhaus mewn systemau TG a thechnoleg system Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig i gynnal lefelau cynhyrchu a pherfformio;
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cydweithio a rhannu adeiladau yn dal i gael eu harchwilio.

3.4 Yn allweddol i hyn yw diweddariad uchel ei flaenoriaeth o'r ystâd sydd yn canolbwyntio ar wella cyfleusterau gweithredol y prif orsafoedd sydd hefyd yn fwy. Mae'r cynllun yn cynnwys darparu ar gyfer gwelliannau mewn dalfeydd yn Sir Gâr. Disgwylir i hyn gostio tua £8.0m.

3.5 Mae 4 achos o waith adnewyddu sylweddol i orsafoedd eraill yn Nyfed Powys ac ar draws y pedair sir yn golygu gwariant o £7.3m ychwanegol. Ar ben hyn cynhelir rhaglen dreigl ar gyfer uwchraddio dalfeydd a rhaglen gynhaliaeth barhaus a drefnwy eisoes a ariennir gan wariant cyllidol.

3.6 Mae'r Comisiynydd wedi cael cefnogaeth ymgynghorwyr allanol i arwain a rheoli'r gwaith hwn. Eu tasg gyntaf oedd cynnal arolygon cyflwr ar draws yr ystâd. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud ac mae caffaeliad ychwanegol i sicrhau gwasanaeth arbenigwyr er mwyn ysgrifennu'r fanyleb fanwl hefyd wedi cael ei wneud. Mae'r manylebau hyn wedi cael eu defnyddio yn sail i gael gwasanaethau contractwyr. Mae'r gwaith mewn pum pecyn. Mae'r pecyn cyntaf ar gyfer gwaith ar y boeleri wedi cael ei gwblhau i bob diben. Mae'r ail becyn, gwaith sydd ei angen ar frys, bron â bod wedi'i orffen. Y pecynnau sydd yn weddill yw'r pecyn tiriogaeth (ac eithrio Powys), gwaith tiriogaeth Powys a gwaith Pencadlys Caerfyrddin.

3.7 Mae'r cyllid cyfalaf yn ychwanegu at gyllideb refeniw ganolog ar gyfer prif weithfeydd cylchol ar adeiladau. Mae hefyd yn ychwanegu at adnoddau refeniw sy'n cael eu dal a'u rheoli'n lleol mewn cyllidau rhanbarthol sydd ar gael ar gyfer atgyweirio ar raddfa lai, cynnal a chadw a mentrau/rhaglenni cynnal. Blaenoriaethir buddsoddi o fewn y Rhaglen Gyfalaf i leihau gwariant refeniw ar yr ystâd.

3.8 Cynhelir hyblygrwydd o fewn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer adeiladau i ganiatáu'r hawl i drosglwyddo arian rhwng y prosiectau gwahanol. Bydd hyn yn dibynnu ar farn y Cyfarwyddwr Ystadau.

3.9 O ran cerbydau, mae rhaglen amnewid wedi cael ei datblygu a chynhwysir y costau yn y blaengynllun cyfalaf. Ystyrir y gofynion ar gyfer cerbydau yn fanwl yn y grŵp defnyddwyr cerbydau a fynychir gan gynrychiolwyr gweithredol a chynhaliol yr Heddlu. Bydd yr heddlu, fodd bynnag, yn dal i ddefnyddio cytundeb y Fframwaith Cenedlaethol i gael cerbydau gweithredol.

3.10 Mae prosiect Telematics yn cael ei weithredu ar draws yr Heddlu. Golyga hyn bod "Bocsys duon" yn cael eu ffitio mewn cerbydau i recordio ymysg

pethau eraill y defnydd a wneir o'r cerbydau a'u lleoliad. Drwy'r Grŵp Fflyd Strategol, bydd yr Heddlu'n dadansoddi'r defnydd a wneir o'r fflyd ac ymddygiad gyrwyr er mwyn cyflwyno hyn mewn modd economegol. Bydd yr Heddlu'n dadansoddi'r defnydd o'r fflyd ac ymddygiad gyrwyr gyda'r bwriad o sicrhau cyflwyniad economaidd. Mae cyllideb refeniw'r Heddlu ar gyfer y fflyd wedi cael ei leihau o ryw £225,000 yn 2017/18.

3.11 Mae cyllid cylchol bach ar gyfer offer hefyd yn gynwysedig fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf gyda'r nod o leihau effaith gofynion pryniadau mwy ar gyllidau refeniw. Defnyddir mecanwaith bidio ar gyfer dyrannu a defnyddio'r cyllid hwn.

3.12 Mae'r Strategaeth Ddigidol TGCh a Roadmap yn ddogfen arunig fanwl sydd yn cynnwys darparu ar gyfer cyflwyno data symudol, plismona digidol, camerâu fideo a wisgir ar y corff, fideo a ddefnyddir yn y car, porth i swyddogion (achos ffeil digidol) a galluoedd system Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig ymhellach. Mae hefyd yn cynnwys diweddaru rhwydwaith mewnol a chaledwedd y Ganolfan Gyfathrebu yn ogystal â newid gweinyddion a TG bwrdd gwaith yr Heddlu a gweinyddion ar sail ailosod yn hytrach nag ar sail gofrestredig gan sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn TG yn dal i ganolbwyntio ar fodloni blaenoriaethau allweddol. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys holl oblygiadau costau ar gyfer y gwaith hwn y bwriedir ei wneud.

3.13 O fewn y Rhaglen Gyfalaf mae nifer o ddatblygiadau allweddol strategol arwyddocaol sydd angen eu hariannu. Mae angen strwythurau cyfarfod penodol a threfniadau rheoli rhaglen ar eu cyfer. Y rhain yw:

- Teledu cylch cyfyng;
- Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys;
- Prosiect Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff;
- Prosiect Data Symudol;
- Prosiect Telematics - gosod tasgau / trefnu

Ar ben hyn mae'r Heddlu wedi cyflwyno Cynnig Cronfa Trawsffurfio ar gyfer buddsoddi mewn TGCh yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu gan gydweithio ag wyth heddlu arall yn Lloegr.

## 4 Gofynion Cyfalaf ac Adnoddau

4.1 Mae gostyngiad sylweddol yn yr arian cyfalaf a roddir gan y Swyddfa Gartref. Yn 2017/18 bydd cyfanswm grant cyfalaf o £318,000 ar gael i'r Comisiynydd. Ar ben hyn, bydd ariannu canolog ar gael i rannol ariannu'r rhaglen ESMCP, er bydd rhaid i'r Comisiynydd ariannu £2.6 miliwn o gostau'r rhaglen hon yn y dyfodol.

4.2 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi blaenoriaethu buddsoddi yn y Rhaglen Gyfalaf tuag at flaenoriaethau strategol, gwario anorfod a meysydd sydd yn lleihau gwariant refeniw at y dyfodol.

4.3 Fel rhan o'i wasanaeth integredig a threfniadau cynllunio ariannol, mae'r Comisiynydd yn amcangyfrif y lefel o adnoddau cyfalaf a fydd ar gael ar gyfer blynyddoedd canlynol. Mae hefyd yn amcangyfrif y lefel fydd ar gael ar gyfer y pedair blynedd ganlynol er mwyn llunio Blaenraglen Gyfalaf.

4.4 Cymeradwywyd Rhaglen Gyfalaf amlinellol gan y Comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throseddu yn Ionawr 2017. Y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy gyfan ar gyfer 2017/18 i 2020/21 oedd £29.807 miliwn. Ceir manylion llawn am y Rhaglen Gyfalaf yn Atodiad A. Mae hyn hefyd yn ymgorffori tair blynedd arall hyd at 2022/23 i sicrhau bod modd ariannu goblygiadau ariannol pob cynllun y bwriedir ei gychwyn yn ystod y cyfnod.

4.7 Defnyddir y lefel proffil o fuddsoddiad cyfalaf ac adnoddau allanol hefyd ar gyfer cyfrifo'r cyllid ar gyfer incwm buddsoddi a benthyg tymor byr. Mae'r strategaeth hefyd yn bwydo mewn i ystyriaethau blynyddol y Comisiynydd wrth iddo osod lefelau a dangosyddion a lefelau benthyg sydd yn gall, yn gynaliadwy ac o fewn cyrraedd yn ariannol. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag ystyriaethau buddsoddi ar wahân o dan y cod cynghorus.

4.8 Yn ogystal â'u rhaglen gyfalaf eu hunain, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio gyda phartneriaid a'r Swyddfa Gartref i sicrhau adnoddau refeniw a chyfalaf ychwanegol i hyrwyddo amcanion partneriaeth a thrawsnewid. Prosesau cyflenwol sydd yn delio â'r rhain. Ni chynhwysir yr adnoddau a godir yn y Rhaglen Gyfalaf oni bai iddynt ffurfio rhan o brosiect sydd yn cael ei arwain yn uniongyrchol gan Heddlu Dyfed Powys. Ystyrir hefyd gynigion ar gyfer y gronfa Cyfnewid a Thrawsffurfio i ddarparu ar gyfer prosiectau cyfalaf ychwanegol yn y dyfodol.

## 5 Adnabod a Blaenoriaethu Prosiectau Cyfalaf

5.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf amgaeedig wedi cael ei blaenoriaethu gan Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu sydd yn gwerthuso gofynion yn erbyn blaenoriaethau strategol. Mae'r prosesau'n adnabod graddfeydd a chymhlethdod amrywiol prosiectau cyfalaf ac yn ymgorffori ymagwedd gymesur tuag at werthuso, monitro a phrisio prosiectau cyfalaf.

5.2 Mae'r Comisiynydd yn rheoli ei Strategaeth Gyfalaf yn weithrediadol drwy'r Bwrdd Plismona, sydd yn arolygu'r prosiectau prif newidiadau ar gyfer cyfalaf a refeniw. Ar ben hyn, fel rhan o'r newidiadau a gyflwynir i drefniadau Llywodraethu corfforaethol yr Heddlu, bydd y Grŵp Asedau Aur yn cefnogi cyflwyno a monitro risgiau rhaglen penodol. Mae gwaith gweithredu manwl yn cael ei neilltuo ar gyfer unigolion allweddol a'u goruchwylio gan Grwpiau Defnyddwyr Ystadau a Cherbydau neu Fwrdd Prosiect penodol.

5.3 Caiff prif brosiectau eu rheoli yn ôl arfer da rheoli prosiectau yn unol â methodoleg prosiect PRINCE 2. Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu rhwng rheoli buddiannau ar brosiectau allweddol, cynllunio ar gyfer effeithiolrwydd a gwybodaeth am gostio.

5.4 Caiff y cynigion ar gyfer y prosiect Cyfalaf eu hystyried a'u blaenoriaethu gan gyfeirio at achos busnes a'u hystyried yn erbyn y ffactorau canlynol:

- Pwysigrwydd strategol - sut mae'r cynnig yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau ehangach cenedlaethol a rhanbarthol;
- Y canlyniadau a chyflawnir a'r buddiannau ac effeithiau penodol;
- Cynaladwyedd - a yw'r costau'n realistig a lefel goblygiadau refeniw at y dyfodol;
- Yr opsiynau a ystyriwyd;
- Pa ffynonellau ariannu eraill posib sydd ar gael;
- I ba raddau mae'r cynigion yn cefnogi gweithio gyda phartneriaid.

Blaenoriaethir wedyn, yn seiliedig ar bedwar categori, a restrir isod yn ôl blaenoriaeth:

- Anorfod (atebolrwydd statudol, cytundebol neu drofaus);
- Blaenoriaeth Gorfforaethol (sydd yn perthyn yn uniongyrchol i'r Amcanion a Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer gwella);
- Blaenoriaeth Gwasanaeth (yn bodloni blaenoriaethau gwasanaeth penodol);
- Arall (ad-dalu, buddsoddi i gynilo, trosoledd ariannu allanol ayyb).

Yr unig ffordd y gellir ystyried prosiectau o flaenoriaeth is, na ellir eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yw os bydd adnoddau ychwanegol neu danwario a adnabyddir yn ystod y flwyddyn.

## 6 Gweithredu a Monitro Prosiectau Cyfalaf

6.1 Adroddir am gynnydd yn erbyn cynlluniau cyfalaf i'r Bwrdd Plismona a Grŵp y Prif Swyddogion o leiaf bob chwarter.

6.2 Ar ôl i'r Rhaglen Gyfalaf gael ei gymeradwyo, enwir rheolwr prosiect a chynrychiolydd defnyddwyr ar gyfer pob prosiect cyfalaf. Mae'r rheolwr prosiect yn gyfrifol am reoli gweithredu'r prosiect a chyflawni ei amcanion. Ar gyfer pob prosiect o fewn y Rhaglen Gyfalaf enwir swyddog i fod yn noddwr y prosiect.

6.3 Mae'r cynrychiolydd defnyddwyr yn gyfrifol am gynrychioli defnyddwyr a chwsmeriaid ac am ddiffinio'r gofynion ansawdd. Mae'r ddwy rôl yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol methodoleg rheoli prosiect Prince 2. Mae'r rheolwr prosiect yn cynhyrchu cynllun prosiect i'w gymeradwyo. Adroddir am gynnydd yn erbyn y cynllun prosiect i Bwrdd Rheoli'r Rhaglen a Noddwr y Prosiect.

## 7 Gwerthuso Prosiectau Cyfalaf sydd wedi'u cwblhau

7.1 Unwaith bydd y prosiectau wedi'u cwblhau, mae'r rheolwr prosiect yn cwblhau arolwg ôl weithredu ar gyfer y prif brosiectau cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys adnabod pryd bydd yr arolwg ôl brosiect yn cael ei gyflawni. Mae'r arolwg ôl brosiect yn cael ei arolygu gan Fwrdd Rhaglenni'r Heddlu a chyflwynir adroddiad i'r Comisiynydd os bydd angen.

7.2 Er mwyn gwerthuso gwir lwyddiant a chanlyniadau prosiectau cyfalaf, cynhelir arolwg prosiect a hefyd arolwg ô' brosiect. Bydd manylder yr arolwg hwn yn cyfateb i raddfa'r prosiect a'r buddion a amlinellir yn y Ddogfennaeth Gychwynnol.

7.3 Mewn gwirionedd gwiriad perfformiad yn erbyn y cynnig gwreiddiol yw'r arolwg hwn. Mae e'n canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflwynwyd, i ba raddau mae'r buddion manteision honedig yn cael eu gwireddu, y gwir gostau, refeniw a chyfalaf, ac effaith ariannu a gweithio â phartneriaid eraill. Bydd yn bosib i Ddyfed Powys wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a chyflwyno unrhyw welliannau a nodir wrth weithredu'r prosiect.

7.4 Mae llwyddiant parhaus prosiectau yn cael ei fonitro gan nifer o fecanweithiau megis adborth gan swyddogion, ymgynghori â'r cyhoedd ac adborth cwsmeriaid.

## 8 Gwaredu Asedau

8.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod bod angen cael gwared ar asedau sydd yn ormodol neu sydd yn anaddas ar gyfer helpu i gyflawni ei nodau corfforaethol a chyflwyno'r rhaglen gyfalaf, ac mae'r broses fanwl ar gyfer cael gwared ar asedau yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

## 9 Goblygiadau Refeniw Buddsoddi Cyfalaf

9.1 Mae adnoddau ar gyfer gwariant bob dydd (refeniw) yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu bod ariannu refeniw ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn gyfyngedig o ran ariannu'r cynlluniau gwreiddiol yn ogystal ag ateb gofynion costau parhaus.

9.2 O ganlyniad i hyn, talwyd sylw arbennig i gostau refeniw parhaus sydd yn deillio o brosiectau cyfalaf yn ystod y broses werthuso. Mae pob cynnig cyfalaf posibl yn nodi costau refeniw parhaus ac yn ystyried sut y gellid bodloni'r rhain. Unwaith y cymeradwyir y rhain, cynhwysir costau refeniw sydd yn deillio o gynlluniau cyfalaf, gan gynnwys unrhyw ofynion benthyg cynghorus o fewn y cynllun ariannol tymor canolig.

## 10 Casgliad

10.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried pob agwedd ar reoli cyfalaf ac yn amlinellu'r dulliau asesu prosiectau ac asedau cyfalaf. Dylid ei darllen ynghyd â'r Strategaethau Ystadau a TG manwl a'r Cynllun Amnewid Cerbydau blynyddol.

## 11. Ystyriaethau Effaith

| Goblygiad | Effaith wedi'i hystyried (Do/Naddo) | Effaith a Nodir |
|---|---|---|
| Cyfreithlon | DO | Dim |
| Cyfrannu at y Cynllun Heddlu a Throseddu | DO | Fel y'i nodir yn yr adroddiad |
| Dadansoddiad Risg | NADDO | Cael eu hasesu ar bob lefel prosiect wrth fynd ymlaen |
| Cydraddoldeb | NADDO | Cael eu hasesu ar bob lefel cynllun wrth fynd ymlaen |
| Hawliau Dynol | DO | Dim |
| Plant a Phobl Ifanc | DO | Dim |
| Amgylchedd a Chynaladwyedd | DO | Fel y'i nodir yn yr adroddiad |
| Y Parc Cenedlaethol | DO | Dim |
| Y Cyfryngau | NADDO | Strategaeth y Cyfryngau am ofynion cyhoeddi i gael ei hystyried gan SCHTh |

## 12. Atodiadau

Atodiad A -Rhaglen Gyfalaf Fanwl Ddrafft

## 13. Manylion Cyswllt

Awdur(on): Jayne Woods / Edwin Harries
E-bost: Edwin.harries@dyfed-powys.pnn.police.uk; Jayne.woods@dyfed-powys.pnn.police.uk
Ffôn: Estyniad 23296 / 23801

## 14. Mynediad gan y Cyhoedd i Wybodaeth

Mae'r wybodaeth yn y ffurflen hon yn amodol ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan gynnwys yr eithriadau a osodir o fewn y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall. Lle bydd eithriadau neu gyfyngiadau eraill yn berthnasol, caiff y ffurflen hon ei golygu cyn mynd ar wefan SCHTh o fewn 5 diwrnod gwaith o gael ei hystyried gan y Bwrdd Plismona.

## 15. Cymeradwyo gan Swyddog

**Prif Swyddog Cyllid**

Ymgynghorwyd â fi am y cynnig a chadarnhaf fod cyngor ariannol a chyfreithiol wedi cael ei ystyried wrth lunio'r adroddiad hwn. Yr wyf yn fodlon bod y cais hwn yn addas ar gyfer cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona.

**Llofnod** **Dyddiad 20/3/2017**

## ***Rhaglen Gyfalaf***

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Prosiectau Ystadau | | | | | | | | | |
| Rhaglen Gadwraeth Llanelli | 0 | 3,000,000 | 3,000,000 | 2,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8,000,000 |
| Gwariant Cadwraeth Cylchol | 336,000 | 100,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 1,636,000 |
| Gweithfeydd Grŵp Strategaeth Ystadau SCHTh | 1,488,000 | 2,500,000 | 1,800,000 | 500,000 | 200,000 | 200,000 | 400,000 | 200,000 | 7,288,000 |
| Rhaglen Cynnal Cynlluniedig | 30,000 | 90,189 | 142,580 | 125,977 | 125,000 | 125,000 | 125,000 | 125,000 | 888,746 |
| Cam Pellach - Ailwampio'r Pencadlys | 0 | 100,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 250,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,854,000** | **5,790,189** | **5,192,580** | **2,875,977** | **575,000** | **525,000** | **725,000** | **525,000** | **18,062,746** |
| | | | | | | | | | |
| ***Cerbydau*** | | | | | | | | | |
| Rhaglen Amnewid Cerbydau | 1,144,000 | 972,000 | 1,044,000 | 1,037,000 | 1,050,000 | 1,050,000 | 1,050,000 | 1,050,000 | 8,397,000 |
| Rhaglen Amnewid Cychod | 120,000 | 0 | 0 | 0 | 120,000 | 0 | 0 | 0 | 240,000 |
| | **1,264,000** | **972,000** | **1,044,000** | **1,037,000** | **1,170,000** | **1,050,000** | **1,050,000** | **1,050,000** | **8,637,000** |
| ***Cynlluniau ICT*** | | | | | | | | | |
| Teledu Cych Cyfyng | 0 | 500,000 | 500,000 | 500,000 | 500,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000,000 |
| PSN | 100,000 | 190,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 590,000 |
| Rhwydwiath y Gwasanaethau Argyfwng Prosiect RMS | 0 | 215,000 | 945,667 | 692,621 | 500,000 | 3,839 | 7,831 | 230,386 | 2,595,343 |
| Gofynion Rhwydwaith Ardal Llydan | 0 | 150,000 | 200,000 | 150,000 | 150,000 | 150,000 | 150,000 | 150,000 | 1,100,000 |
| Adfer Argyfwng | 765,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 1,115,000 |
| ANPR - Amnewidiadau / System Cenedlaethol Newydc | 220,000 | 239,400 | 316,350 | 332,900 | 292,950 | 297,090 | 148,500 | 285,300 | 2,132,490 |
| Rhaglenwyr / Technegwyr | 0 | 70,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 30,000 | 0 | 0 | 400,000 |
| Trosedd Seiber Lle Cadw / Offer | 80,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 430,000 |
| Prosiect RMS | 0 | 50,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 650,000 |
| Digital Interview Recording | 0 | 40,000 | 130,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 320,000 |
| Central Data Information Store | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 200,000 |
| Ffotograffiaeth Digidol | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 | 160,000 |
| Offer Gweithredu (Cyfalaf >£6K) | 125,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 825,000 |
| Fideo a wisgir ar y Corff | 336,000 | 40,000 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 | 576,000 |
| Prosiect Data Symudol | 124,000 | 150,000 | 320,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 | 180,000 | 1,494,000 |
| Rheoli Perthynas â'r Cyhoedd/ CID | 120,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 120,000 |
| Cyfrannu Troseddau / Storm / Awdit PNC / Rhyngwyne | 0 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 350,000 |
| Fideo o fewn y car | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250,000 | 500,000 |
| Rhaglen Graidd Amnewid Bwrdd Gwaith TGCh | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 600,000 |
| Rhaglen Amnewid Gweinydd | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 600,000 |
| Gallu Cadw a Chadw wrth gefn | 140,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 100,000 | 840,000 |
| Telematics | 97,000 | 25,000 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 | 322,000 |
| Amnewid Trwyddedau Oracle | 80,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80,000 |
| Amnewid Set law | 0 | 50,000 | 50,000 | 25,000 | 75,000 | 25,000 | 25,000 | 75,000 | 325,000 |
| Amnewid Mur Gwarchod | 50,000 | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 150,000 |
| Diweddariad IP999 | 0 | 240,000 | 0 | 0 | 0 | 400,000 | 0 | 0 | 640,000 |
| | **2,447,000** | **2,459,400** | **3,462,017** | **2,780,521** | **2,447,950** | **2,235,929** | **1,211,331** | **2,070,686** | **19,114,833** |
| | | | | | | | | | |
| | **5,565,000** | **9,221,589** | **9,698,597** | **6,693,498** | **4,192,950** | **3,810,929** | **2,986,331** | **3,645,686** | **45,814,579** |
| | | | | | | | | | |
| ***Ariannu sydd Ar gael*** | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfalaf yr Heddlu | -500,000 | -318,000 | -318,000 | -318,000 | -318,000 | -318,000 | -318,000 | -318,000 | -2,726,000 |
| Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf | -400,000 | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -2,500,000 |
| Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (Par | -114,000 | -68,000 | -23,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -205,000 |
| Derbyniadau Cyfalaf (Panel) | 0 | -1,500,000 | -500,000 | -200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | -2,200,000 |
| Cronfa Gyfalaf Wrth gefn (18645000) | -4,551,000 | -7,035,589 | -5,058,411 | -2,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | -18,645,000 |
| **Cyfanswm** | -5,565,000 | -9,221,589 | -6,199,411 | -2,818,000 | -618,000 | -618,000 | -618,000 | -618,000 | -26,276,000 |
| | | | | | | | | | |
| Benthyg Gwreiddiol - Panel | 0 | 0 | -2,106,000 | -1,765,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | -3,871,000 |
| | -5,565,000 | -9,221,589 | -8,305,411 | -4,583,000 | -618,000 | -618,000 | -618,000 | -618,000 | -30,147,000 |
| Gofyniad Benthyca sydd yn weddill | 0 | 0 | -1,393,186 | -2,110,498 | -3,574,950 | -3,192,929 | -2,368,331 | -3,027,686 | -15,667,579 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Benthyca** | 0 | 0 | 3,499,186 | 3,875,498 | 3,574,950 | 3,192,929 | 2,368,331 | 3,027,686 | 19,538,579 |
| ***Crynodol*** | 0 | 0 | 3,499,186 | 7,316,365 | 10,769,375 | 13,782,814 | 15,921,431 | 18,683,760 | 18,683,760 |
| | | | | | | | | | |
| Ad-daliad @60 Blynedd | 0 | 0 | 58,320 | 121,939 | 179,490 | 229,714 | 265,357 | 311,396 | 311,396 |
| Llog @4% y flwyddyn | 0 | 0 | 139,967 | 292,655 | 430,775 | 551,313 | 636,857 | 747,350 | 747,350 |
| | 0 | 0 | 198,287 | 414,594 | 610,265 | 781,026 | 902,214 | 1,058,746 | 1,058,746 |
| Cynnydd Blynyddol | | 0 | 198,287 | 216,307 | 195,671 | 170,762 | 121,188 | 156,532 | |
| | | | | | | | | | |
| ***Diffyf Net / Cynnydd*** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |